# Canllaw i ganlyniadau

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IGC) / Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (GChDDP)

Cyfres Ionawr 2025

Mae'r ddogfen hon yn cynnig trosolwg o ganlyniadau **IGC/GChDDP**. Mae'n rhoi manylion ynghylch beth i'w ddisgwyl ar ddiwrnodau canlyniadau, y ddogfennaeth y byddwch yn ei derbyn, gwybodaeth am ffiniau graddau, a lle y gellir dod o hyd i gyngor ac arweiniad ychwanegol.

## Cynnwys


1. Diwrnod y Canlyniadau 3

   i) Casglu canlyniadau arholiadau 3

   ii) Beth i'w ddisgwyl 3

   iii) Sut mae'r canlyniadau yn cael eu dangos ar y slip canlyniadau 3

   Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori 3

   Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori 3

   Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau 4

   Lefel 3 Tystysgrif mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau 4

   Lefel 3 Diploma Sylfaen mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau 5

   Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau 5

   Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau 6

   iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau 8

2. Deall Canlyniadau 9

   i) Esbonio graddau 9

   ii) Esbonio marciau 9

   iii) Sut mae marciau'n cael eu trawsnewid yn raddau 10

3. Ffiniau Graddau 10

4. Adroddiadau Cymedrolwyr 10

5. Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad 10

6. Pryd bydd tystysgrifau ar gael 11

# 1. Diwrnod y Canlyniadau

## i) Casglu canlyniadau arholiadau

Rhaid i ymgeiswyr dderbyn eu canlyniadau arholiadau o safle eu hysgol neu goleg (canolfan), fel arfer ar y diwrnod canlyniadau swyddogol.

Diwrnod cyhoeddi canlyniadau cyfres Ionawr 2025 yw **dydd Iau 6 Mawrth 2025**, o 8.00am ymlaen.

Nid yw CBAC yn gallu darparu na thrafod canlyniadau dros y ffôn na drwy gyfathrebu ar e-bost ag ymgeiswyr neu rieni, hyd yn oed os yw'r ysgol neu'r coleg wedi cau. Dylai ymgeiswyr, felly, gadarnhau â'u hysgol neu goleg pryd a ble y bydd canlyniadau ar gael i'w casglu a sut a gyda phwy y gallent drafod unrhyw faterion neu bryderon.

Ni ddylid datgelu canlyniadau i unrhyw un arall gan gynnwys awdurdodau lleol a'r cyfryngau tan ar ôl 9.30am ar y dydd Iau.

## ii) Beth i'w ddisgwyl

Ar Ddiwrnod y Canlyniadau, fel arfer bydd ymgeiswyr yn derbyn darn o bapur gyda'u canlyniadau arno (y 'slip canlyniadau').

Canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain ar hyn o bryd; gall fod newidiadau yn hwyrach ymlaen, er enghraifft yn dilyn Adolygiad o Farcio neu Gymedroli.

## iii) Sut mae'r canlyniadau yn cael eu dangos ar slip canlyniadau

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob cymhwyster a safodd yr ymgeisydd hwnnw yn ystod y gyfres arholiadau honno.

***Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori***

Bydd canlyniadau'n cael eu dangos fel P (Llwyddo) neu F (Methu)

***Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori***

Dangosir canlyniadau'r cymhwyster fel Llwyddiant (P), Teilyngdod (M), Rhagoriaeth (D) a Rhagoriaeth* (D*). Bydd ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y safon ofynnol leiaf ar gyfer gradd llwyddiant yn cael Gradd U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif cymhwyster. Graddau Llwyddiant (P), Teilyngdod (M) a Rhagoriaeth (D) sydd ar gael am Ddeilliannau Unedau ar gyfer Unedau 330 a 331. Nid yw Rhagoriaeth * ar gael ar lefel uned.

Defnyddir Graddfa Marciau Unffurf (GMU) fel ffordd o adrodd, cofnodi ac agregu deilliannau asesu unedau ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned.

Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar farc GMU cyffredinol yr ymgeisydd. Er mwyn cael gradd Llwyddiant, Teilyngdod, Rhagoriaeth neu Ragoriaeth*, rhaid i ymgeiswyr gael:

***(i)*** Llwyddiant yn yr unedau mewnol, a

***(ii)*** Ennill y marc GMU lleiaf ar gyfer gradd y cymhwyster

Mae'r GMU yn cyfateb i raddau fel a ganlyn:

| | GMU Uchaf | D* | D | M | P |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 330 | 100 | | 80 | 60 | 40 |
| Uned 331 | 100 | | 80 | 60 | 40 |
| **Cymhwyster** | **200** | **180** | **160** | **120** | **80** |

Dim ond ar lefel cymhwyster mae gradd Rhagoriaeth* ar gael. Nid oes gradd Rhagoriaeth* ar lefel uned.

***Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau***

Bydd canlyniadau'n cael eu dangos fel Llwyddiant (P), Teilyngdod (M), Rhagoriaeth (D). Bydd ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y safon ofynnol leiaf ar gyfer gradd llwyddiant yn cael Gradd U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif cymhwyster.

Defnyddir Graddfa Marciau Unffurf (GMU) fel ffordd o adrodd, cofnodi ac agregu deilliannau asesu unedau ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned.

Mae'r GMU yn cyfateb i raddau fel a ganlyn:

| | GMU Uchaf | D | M | P |
|---|---|---|---|---|
| Arholiad Uned 1 | 100 | 80 | 60 | 40 |
| Uned 2 Asesiad Di-arholiad | 150 | 120 | 90 | 60 |
| **Cymhwyster** | **250** | **200** | **150** | **100** |

***Lefel 3 Tystysgrif mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau***

Caiff y cymhwyster Lefel 3 Tystysgrif Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau ei raddio A* - E. Mae graddau A-E ar gael am gyflawni unedau.

Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y marc GMU cyffredinol a chyflawniadau'r dysgwr ym mhob un o'r unedau. Er mwyn ennill gradd cymhwyster, rhaid i ymgeiswyr gyflawni'r GMU gofynnol am radd y cymhwyster.

Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau fel a ganlyn:

| Uned | Teitl yr Uned | Cyfanswm GMU | Gradd GMU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | A* | A | B | C | D | E |
| 1 | Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 2 | Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolyn ar bob cam o'r rhychwant oes | 200 | | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| **Cymhwyster** | | **400** | **360** | **320** | **280** | **240** | **200** | **160** |

***Lefel 3 Diploma Sylfaen mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau***

Caiff y cymhwyster Lefel 3 Diploma Sylfaen mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau ei raddio A* - E. Mae graddau A-E ar gael am gyflawni unedau.

Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y marc GMU cyffredinol a chyflawniadau'r dysgwr ym mhob un o'r unedau. Er mwyn ennill gradd cymhwyster, rhaid i ymgeiswyr gyflawni'r GMU gofynnol am radd y cymhwyster.

Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau fel a ganlyn:

| Uned | Teitl yr Uned | Cyfanswm GMU | | Gradd GMU | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | A* | A | B | C | D | E |
| 1 | Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 2 | Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolyn ar bob cam o'r rhychwant oes | 200 | | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| 3 | Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 4 | Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 5 | Cefnogi unigolion sydd mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael | 200 | | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| 6 | Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 8 | Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i gyflawni canlyniadau cadarnhaol | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| **Diploma Sylfaen** | | **600** | **540** | **480** | **420** | **360** | **300** | **240** |

***Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau***

Caiff y cymhwyster Lefel 3 Diploma a Diploma Sylfaen mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau ei graddio A*A* – EE. Mae graddau A-E ar gael am gyflawni unedau.

Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y marc GMU cyffredinol a chyflawniadau'r dysgwr ym mhob un o'r unedau. Er mwyn ennill gradd cymhwyster, rhaid i ymgeiswyr gyflawni'r GMU gofynnol am radd y cymhwyster.

Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

| Uned | Teitl yr Uned | Cyfanswm GMU | | Gradd GMU | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | A* | A | B | C | D | E |
| 1 | Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 2 | Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolyn ar bob cam o'r rhychwant oes | 200 | | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| 3 | Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 4 | Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 5 | Cefnogi unigolion sydd mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael | 200 | | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| 6 | Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau cymhwyster fel a ganlyn:

| Gradd | Uchaf | A*A* | A*A | AA | AB | BB | BC | CC | CD | DD | DE | EE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GMU | 800 | 720 | 680 | 640 | 600 | 560 | 520 | 480 | 440 | 400 | 360 | 320 |

***Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau***

Caiff y cymhwyster Lefel 3 Diploma a Diploma Sylfaen mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau ei graddio A*A*A* - EEE. Mae graddau A-E ar gael am gyflawni unedau.

Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y marc GMU cyffredinol a chyflawniadau'r dysgwr ym mhob un o'r unedau. Er mwyn ennill gradd cymhwyster, rhaid i ymgeiswyr gyflawni'r GMU gofynnol am radd y cymhwyster.

Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau fel a ganlyn:

| Uned | Teitl yr Uned | Cyfanswm GMU | | Gradd GMU | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | A* | A | B | C | D | E |
| 1 | Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolyn ar bob cam o'r rhychwant oes | 200 | | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| 3 | Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 4 | Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 5 | Cefnogi unigolion sydd mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael | 200 | | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| 6 | Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 7 | Anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | 200 | | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| 8 | Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i gyflawni canlyniadau cadarnhaol | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 9 | Ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru | 100 | | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau cymhwyster fel a ganlyn:

| Gradd | Uchaf | A*A*A* | A*A*A | A*AA | AAA | AAB | ABB | BBB | BBC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GMU | 1200 | 1080 | 1040 | 1000 | 960 | 920 | 880 | 840 | 800 |

| Gradd | BCC | CCC | CCD | CDD | DDD | DDE | DEE | EEE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GMU | 760 | 720 | 680 | 640 | 600 | 560 | 520 | 480 |

Sylwer bod systemau gwybodaeth rheoli (MIS) a ffeiliau canlyniadau cyfnewid data electronig (EDI) canolfannau wedi'u fformatio i ganiatáu uchafswm o ddwy radd. Felly ar gyfer canlyniadau EDI, bydd setiau graddau "cod byr" yn cael eu defnyddio. Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r graddau a'r setiau graddau "cod byr" (yn dangos sut bydd tair gradd yn cael eu dangos ar slipiau canlyniadau).

**Mae'n bosibl y bydd eich cyflenwr MIS yn gallu trawsnewid y setiau graddau hyn yn ôl i dair gradd i chi gan ddefnyddio'r data a ddarperir gan y CGC. Cysylltwch â'ch cyflenwr am fwy o wybodaeth.**

Bydd y tair gradd i'w gweld ar y tystysgrifau ac ni fyddant yn defnyddio'r setiau graddau "cod byr".

| **Graddau wedi'u Dangos yn Llawn**<br><br>**(sy'n ymddangos fel isod ar dystysgrifau)** | **Set Graddau Cod Byr**<br><br>**(sy'n ymddangos fel isod ar slipiau canlyniadau)** |
|---|---|
| Gradd A*A*A* | *3 |
| Gradd A*A*A | *2 |
| Gradd A*AA | *1 |
| Gradd AAA | A3 |
| Gradd AAB | A2 |
| Gradd ABB | A1 |
| Gradd BBB | B3 |
| Gradd BBC | B2 |
| Gradd BCC | B1 |
| Gradd CCC | C3 |
| Gradd CCD | C2 |
| Gradd CDD | C1 |
| Gradd DDD | D3 |
| Gradd DDE | D2 |
| **Graddau wedi'u Dangos yn Llawn**<br><br>**(sy'n ymddangos fel isod ar dystysgrifau)** | **Set Graddau Cod Byr**<br><br>**(sy'n ymddangos fel isod ar slipiau canlyniadau)** |
| Gradd DEE | D1 |
| Gradd EEE | E3 |
| Annosbarthedig | U |

## iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau

Yn ogystal â graddau, gall slipiau canlyniadau gynnwys symbolau eraill:

Mae **X** yn dangos nad yw canlyniad yn cael ei gyhoeddi oherwydd absenoldeb yr ymgeisydd ar gyfer pob cydran/uned. Mae'n bosibl hefyd y penderfynwyd peidio â chyhoeddi canlyniad. Ni fydd unrhyw bwnc ag (X) yn ymddangos ar y dystysgrif.

Mae **Q** yn dangos nad yw canlyniad yn cael ei gyhoeddi gan na ddarparwyd gradd.

**#** Rhoddir y dangosydd hwn nesaf i'r radd gyffredinol os yw'r ymgeisydd wedi cwblhau gwaith ar gyfer rhai, ond nid pob un, o gydrannau neu unedau'r pwnc.

## 2. Deall Canlyniadau

### i) Esbonio graddau

Adroddir graddau fel:

***L2 GCHDDP: Ymarfer a Theori -*** P neu F (a P yw'r unig radd sydd ar gael)

***L2 IGC: Egwyddorion a Chyd-destunau -*** D, M, P (a D yw'r radd uchaf)

***L3 GCHDDP: Ymarfer a Theori -*** fel D*, D. M, P (a D* yw'r radd uchaf)

***L3 Tystysgrif mewn IGC: Egwyddorion a Chyd-destunau*** A* - E (ac A* yw'r radd uchaf). Mae graddau A-E ar gael am gyflawni unedau.

***L3 Diploma Sylfaen mewn IGC: Egwyddorion a Chyd-destunau*** A* - E (ac A* yw'r radd uchaf). Mae graddau A-E ar gael am gyflawni unedau.

***L3 Diploma mewn IGC: Egwyddorion a Chyd-destunau*** A*A* - EE (ac A*A* yw'r radd uchaf). Mae graddau A-E ar gael am gyflawni unedau.

***L3 Diploma Estynedig mewn IGC: Egwyddorion a Chyd-destunau*** A*A*A* - EEE (ac A*A* yw'r radd uchaf). Mae graddau A-E ar gael am gyflawni unedau.

### ii) Esbonio marciau

- **Marciau crai**

Mae cyfanswm marciau crai yn cael ei ddyrannu i bob uned neu gydran.

- **Graddfa Marciau Unffurf (GMU)**

Mewn manylebau **unedol** mae marciau crai yn cael eu trawsnewid yn farc unffurf (GMU) sy'n cael ei ddefnyddio fel dyfais ar gyfer adrodd, cofnodi ac agregu canlyniadau asesu unedau/cydrannau ymgeiswyr. Mae mwy o wybodaeth ar gael ynghylch GMU

Adroddir marciau unffurf fel marciau cyfan ac felly, os bydd angen gwneud hynny, byddan nhw'n cael eu "talgrynnu" (e.e. adroddir marc unffurf o 19.6 fel 20). Er bod hyn yn rhywbeth prin, gall olygu bod marc crai ar frig yr ystod marciau mewn gradd yn trawsnewid yn farc unffurf wedi'i dalgrynnu sy'n cyfateb i'r radd nesaf i fyny. Noder, er na chodir gradd yr uned yn rhan o'r broses dalgrynnu, y bydd y marc unffurf wedi'i dalgrynnu'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r radd gyffredinol.

### iii) Sut mae marciau'n cael eu trawsnewid yn raddau

- Yn y cymwysterau unedol, cyfrifir gradd gyffredinol y cymhwyster gan adio'r marciau unffurf a enillwyd yn yr unedau unigol at ei gilydd. Mae hyn yn rhoi cyfanswm marciau unffurf i'r ymgeiswyr sy'n trawsnewid yn radd gyffredinol yn seiliedig ar ffin y radd.

## 3. Ffiniau Graddau

Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Er bod papurau arholiad yn cael eu hysgrifennu i'r un lefel o anhawster, maen nhw'n amrywio bob blwyddyn. Mae ffiniau graddau yn sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn yr un radd ar gyfer yr un lefel o berfformiad, pryd bynnag caiff yr arholiad ei sefyll.

### Ffiniau graddau ar gyfer cymwysterau unedol

Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.

## 4. Adroddiadau Cymedrolwyr

Mae adroddiadau cymedrolwyr ar gael i'w lawrlwytho o'r o’r adran asesiad mewnol / canlyniadau ar Porth hyd at **3 Mai 2025.**

Dylai canolfannau y mae angen adroddiadau arnynt ar ôl y dyddiad hwn gysylltu’n uniongyrchol â thîm y pwnc i gael mynediad i'r adroddiad.

## 5. Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn trafod unrhyw bryderon â'u hysgol neu goleg, Swyddog Arholiadau neu athro fel arfer, a phenderfynu ar yr opsiynau gorau sydd ar gael.

Os teimlir bod gwall wedi digwydd, gallai'r ganolfan wneud cais am un neu fwy o'r gwasanaethau ar ôl y canlyniadau a gynigir gan CBAC. Ni all ymgeiswyr mewnol na rhieni wneud cais. Byddem yn annog ymgeiswyr preifat i ofyn am gyngor ac i wneud cais drwy eu canolfan gofrestru ond gallant hefyd wneud cais yn uniongyrchol drwy e-bostio ein Gwasanaeth Ar ôl y Canlyniadau – gac@cbac.co.uk yn nodi enw'r ymgeisydd, rhif yr ymgeisydd, rhif ac enw'r ganolfan mewn unrhyw ohebiaeth.

Ymhlith y gwasanaethau hyn mae:

- Mynediad am ddim i sgriptiau – bydd fersiwn electronig o'r sgript ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o'n safle Porth.
- Ailwiriad clercaidd – ailwiriad yw hwn o’r holl weithdrefnau clercaidd sy’n arwain at gyhoeddi canlyniad.
- Adolygu'r marcio ar ôl y canlyniadau – adolygiad o'r marcio gwreiddiol i sicrhau bod y cynllun marcio y cytunwyd arno wedi’i ddefnyddio'n gywir.

- Adolygiad o'r cymedroli ar ôl y canlyniadau – noder nad yw hwn ar gael ar gyfer ymgeiswyr unigol.

Am fanylion pellach, ewch i'n tudalen Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau a chyfeiriwch at y wybodaeth a gyhoeddir gan y CGC am weithdrefnau **Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau** (mae CBAC yn dilyn yr un gweithdrefnau CGC ym mis Ionawr a'r gweithdrefnau a ddilynir ar gyfer cyfres Mehefin a chyfres Tachwedd).

**Mae'n bwysig nodi y gall marciau aros yr un fath, neu godi neu ostwng, wrth wneud cais am ailwiriad clercaidd neu adolygiad o farcio.** Felly, **rhaid** i ymgeiswyr lofnodi dogfen yn cydsynio i'r cais cyn i ysgol neu goleg ei gyflwyno.

Bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi yn uniongyrchol gan CBAC i'r ysgol neu goleg, a byddan nhw wedyn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r ymgeiswyr. Os cyflwynwyd cais gan ymgeisydd preifat yn uniongyrchol i CBAC, yna'r ymgeisydd ei hun fydd yn derbyn y canlyniad. **Unwaith y bydd canlyniad wedi'i gyhoeddi, ni ellir adfer y marc gwreiddiol dan unrhyw amgylchiadau, hyd yn oed os yw'r marc newydd yn is na'r marc gwreiddiol.**

## 6. Pryd bydd tystysgrifau ar gael

Anfonir tystysgrifau i ganolfannau erbyn diwedd mis Mai.

Dylai ymgeiswyr gadarnhau bod eu manylion personol, enw a dyddiad geni, yn gywir ar y slip canlyniadau a rhoi gwybod i'r Swyddog Arholiadau os oes unrhyw wallau. **Rhaid i Swyddogion Arholiadau roi gwybod i CBAC am wallau, yn ysgrifenedig, yn ddim hwyrach na 31 Mawrth.** Os nad yw gwallau'n cael eu cywiro ar yr adeg hon, codir tâl am gyfnewid tystysgrifau ar ôl eu cyhoeddi. Dylai ymgeiswyr gadarnhau â'u hysgol neu goleg beth yw'r trefniadau ar gyfer derbyn eu tystysgrifau.